ffeithiau

Social Farms & Gardens

Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol

# Rheoli Safleoedd Rhandiroedd Pecyn Cymorth: Toiledau fforddiadwy ar randiroedd

## Rhagarweiniad

Mae Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gynhyrchu pecyn o adnoddau i helpu sicrhau fod awdurdodau lleol ac eraill sy'n gysylltiedig â rheoli safleoedd rhandiroedd yng Nghymru yn manteisio i'r eithaf ar botensial y safleoedd ar gyfer y boblogaeth leol.

Gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, mae FfaGC Cymru wedi llunio dogfen cyfarwyddyd ar gyfer awdurdodau lleol, tyfwyr a grwpiau tyfu yng Nghymru sy'n cynnwys trosolwg o ran rheoli safleoedd rhandiroedd.


Mae'r daflen ffeithiau hon yn un o gyfres sy'n rhoi mwy o fanylion ar y pynciau amrywiol sy'n rhan o'r Cyfarwyddyd.

Yn ogystal mae'r pecyn cymorth yn cynnwys amrediad o ddogfennau tenantiaeth enghreifftiol a a thempledi dogfennau cyfreithiol eraill i gynorthwyo gyda rheoli safle.

Gellir lawrlwytho'r holl adnoddau hyn o:

**www.farmgarden.org.uk/allotment-site-management-toolkit**





Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Toiledau fforddiadwy ar randiroedd

Mae pawb yn gorfod ateb galwad natur o dro i dro: ond mae'n bur debyg mai'r unig opsiwn i bobl sydd wrthi'n gweithio ar eu rhandiroedd yw cefn y gwrych. Trwy osod toiled, gall fod yn haws denu deiliaid rhandiroedd newydd o amrediad ehangach o grwpiau defnyddwyr, ac mae'n golygu bod delwedd y safle'n well hefyd. Mae'r daflen ffeithiau hon yn cynnwys gwybodaeth ar rai o'r opsiynau cost isel sydd ar gael.

Mae hyd yn oed y toiled gorau ond cystal â'r unigolyn sy'n ei lanhau! Mae'n hanfodol gweithio allan system ddibynadwy i lanhau a chynnal y toiled cyn ei gosod, a chytundeb y bydd defnyddwyr yn glynu wrtho. Mae nifer o safleoedd wedi gorfod cau eu toiledau oherwydd nid oedd y defnyddwyr yn gofalu amdanynt.

Anaml iawn y bydd toiledau ar brif bibellau'n ddewis rhad, yn enwedig oherwydd ychydig iawn o safleoedd sydd â mynediad at brif systemau carthffosiaeth ac mae angen talu costau parhaol. Mae systemau tanc carthion a thoiledau compost yn rhatach eu gosod a'u rhedeg, ac yr un mor dderbyniol i ddefnyddwyr. Yr hyn sy'n bwysig yw bod y toiled yn hygyrch i bob defnyddiwr, yn hylan, ac yn rhwydd a diogel ei ddefnyddio gyda'r aroglau lleiaf posib.

Mae llawer o gymdeithasau wedi lleihau'r costau trwy ddefnyddio gwirfoddolwyr i wneud y gwaith, yn enwedig deiliaid rhandiroedd sydd â sgiliau adeiladu neu blymio, y gwasanaeth prawf ac Ymddiriedolaeth Gwirfoddolwyr Cadwraeth Prydain (TCV). Hefyd mae rhai cymdeithasau wedi lleihau eu costau trwy ail-ddefnyddio pren neu offer ystafell ymolchi a ailgylchwyd.

# Systemau toiled gwahanol

## Toiledau Compost

Fel arfer ciwbicl pren sydd gan doiledau compost oddi ar y ddaear, uwchben siambr i gasglu'r carthion.

Mae'n haws adeiladu a gwagio toiled compost uwch ac mae'r system gwyntyllu'n well na thoiled compost mewn 'ffos'. Defnyddir ffrâm bren i adeiladu'r siambr, a haen ddwbl o weiar ieir ar gyfer yr ochrau, llawn gwellt neu ddeunydd tebyg. Mae'r gwellt yn cadw'r pryfed draw, ac mae'r siambr heb gaead i alluogi ei wyntyllu'n iawn. Mae'n hollbwysig gosod y weiar ieir rhyw droedfedd yn y ddaear i atal llygod mawr rhag mynd mewn (mae llygod mawr yn bwyta carthion dynol).

Does dim angen cael bowlen toiled ceramig, byddai blwch a thwll uwchben, a sedd toiled yn ddigon. Gellir cynnwys awyrdyllau yn y ciwbicl ac wrth ddylunio'r siambr.

Ar ôl defnyddio'r toiled bob tro, mae angen ychwanegu cyfrwng swmpuso i amsugno'r lleithder a chynnig ffynhonnell garbon, sy'n helpu'r broses o gompostio. Fel arfer y cyfrwng swmpuso yw llond llaw dda o lwch llif. Mae llwch llif ar gael yn y rhan fwyaf o siopau amaethyddol neu fusnesau sy'n cyflenwi deunydd gorwedd i anifeiliaid. Dylid darparu llond bwced o lwch llif, sgŵp, a phosteri wedi'u lamineiddio sy'n egluro:

- Sut i ychwanegu'r cyfrwng swmpuso
- Y ffaith nad oes angen unrhyw ddŵr
- Na ddylid rhoi eitemau nad yw'n bosib eu compostio yn y toiled
- Golchi dwylo
- Os darperir tyweli papur, gall y defnyddiwr eu rhoi yn y toiled fel cyfrwng swmpuso ychwanegol.

Dylai'r llwyfan fod yn gadarn, sy'n annhebygol o gwympo! Nid oes angen iddo fod mwy na 4 – 5 llath oddi ar y ddaear, ac mae'n rhaid gofalu nad yw'r grisiau/ramp yn mynd yn llithrig wrth wlychu.

Fel arfer y dull arferol yw hoelio weiar ieir ar y grisiau/ramp (ond gofalwch nad yw'r hoelion yn pwyntio ar i fyny).

Mae angen gwagio toiled compost pan fydd y siambr compostio'n llawn. Mae'n rhaid gwneud hyn ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf, ac wedi hynny fel arfer bob rhyw 3 – 5 mlynedd, yn dibynnu ar lefel y defnydd (un enghraifft yn unig yw hon o ran angen pwy fydd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r toiled ar ôl ei gosod).

Nid yw gwagio'r toiled yn dasg mor annymunol ag y byddech yn meddwl os gallwch adael ei wneud nes i'r gwastraff droi'n gompost diddrwg. Os oes gennych ddwy siambr compostio drws nesaf i'w gilydd, gallwch gau'r siambr gyntaf ar ôl iddi lenwi, a symud sedd y toiled i'r ail siambr. Pan fydd yr ail siambr yn llawn, gallwch wagio'r siambr gyntaf a symud y sedd yn ôl, a chau'r ail siambr. Trwy wisgo menig, gallwch daenu'r compost o gwmpas llwyni neu goed ffrwythau (ond nid ar y llysiau).

Y brif broblem gyda thoiledau compost, yw eu bod ar gyfer gwastraff sych yn bennaf, tra bydd angen toiled ar ddeiliaid rhandiroedd yn ystod y dydd, i wneud pi-pi fel arfer. Bydd gormod o wrin yn amharu ar y broses compostio ac yn gwneud i'r toiled arogli. Os bydd y toiled ar gyfer defnydd ysgafn, ac ychwanegir cyfrwng swmpuso bob amser, bydd yn lleihau'r broblem. Fel arall, mae amrediad o hidlau wrin a throethfeydd compost ar gael i gadw'r wrin ar wahân, ac mae llawer o'r rhain yn rhad ac yn hawdd eu gwneud. Gellir defnyddio wrin at bwrpasau eraill hefyd e.e. fel gwrtaith uchel mewn maetholion ar gyfer planhigion megis llwyni ffrwythau a llwyni ar ôl ei wanhau, neu i gychwyn y broses compostio. Gweler Adnoddau ar gyfer rhestr o lyfrau sy'n delio gyda'r pwnc yma, gan gynnwys 'Liquid Gold', a gyhoeddir gan Green Books.

Mae rhai sefydliadau'n rhedeg cyrsiau mewn adeiladu toiledau compost a strwythurau cysylltiedig, a all fod yn rhatach na thalu cwmni ymgynghorol i wneud y gwaith.

## System trwytholchi a ffos gerrig

Bydd y rhan fwyaf o doiledau compost a thanciau carthion yn cynhyrchu rhywfaint o garthffrwd hylifol, naill ai yng ngwaelod y siambr neu trwy ddyfais hidlo'r wrin. Mae angen delio gyda'r garthffrwd er mwyn osgoi llygru dŵr daear. Os bydd cyflwr y ddaear yn caniatáu, gellir ei drin yn y pridd trwy ffos gerrig neu system trwytholchi. Bydd y garthffrwd yn llifo i ffos sy'n llawn graean, lle mae'r graean yn ei hidlo cyn gadael trwy'r waliau a gwaelod y ffos i'r pridd. Gweler Adnoddau ar gyfer ffynonellau cyngor proffesiynol ar y pwnc yma.

Math o doiled compost yw toiled coed, sy'n dibynnu ar gylch o lystyfiant 'sychedig' o gwmpas y toiled, fel arfer 2 gylch o doriadau helyg consentrig, i amsugno'r garthffrwd. Os bydd toiled yn cael ei ddefnyddio ar gyfer wrin yn bennaf, gallwch hefyd blannu gwelyau comffri i amsugno nitradau/ ffosffadau. Os bydd lefelau'r dŵr daear yn uchel, ni fydd yn bosib gosod toiled coed oherwydd y risg o lygru'r dŵr daear.

Ni ddylai bod angen system trwytholchi ar gyfer toiledau gyda system hidlo'r wrin. Cyngor 'Natural Solutions' (gweler Adnoddau) yn hyn o beth yw system lle cesglir yr wrin ynghyd â dŵr y basn ymolchi a dŵr glaw o'r to i'w ddefnyddio i ddyfrhau llwyni neu goed ffrwythau.

## Corslwyni

Gwlypdir sy'n cael ei greu mewn ffordd artiffisial yw corslwyn, gyda rhywogaethau cors arbennig, i'w ddefnyddio fel dewis arall yn lle system trwytholchi neu ffos gerrig i ddelio gyda charthion. Mae'r cyrs sy'n ocsigenu'n ysgogi datblygu niferoedd enfawr o ficro-organebau, sy'n troi carthffrwd yn ddŵr daear glân a diogel. Hefyd gellir eu plannu i lanhau mannau sy'n wlyb ac yn drewi o ganlyniad i hen systemau ffosydd cerrig a thanciau carthion tagedig neu sy'n gorlifo.

Mae corslwyni hefyd yn effeithlon ac yn rhad eu rhedeg, ac yn debyg i doiledau compost, yn golygu bod maetholion gwastraff dynol yn dychwelyd i'r pridd.

Gall bacteria, megis e-coli, fod yn bresennol mewn carthffrwd ddynol, felly dylid cynnal asesiad risg cyn eu gosod. Mae rhai sefydliadau'n rhedeg cyrsiau mewn dylunio a phlannu corslwyn, a all fod yn rhatach na thalu cwmni ymgynghorol i wneud y gwaith.

## Systemau tanc carthion

Er nad ydynt mor gyfeillgar o safbwynt amgylcheddol â thoiled compostio, system tanc carthion yw'r toiled fflysio rhataf ac yn hawdd ei osod. Mae'r tanc carthion mewn siambr concrit, a gosodir toiled cyffredin sy'n fflysio uwch ei ben. Bydd angen trefnu cwmni i wagio'r tanc bob 2 - 10 mlynedd yn dibynnu ar lefel ei ddefnydd, am gost o ryw £150 y tro. Felly bydd angen lleoli'r toiled mewn man sy'n cynnig mynediad rhwydd i'r cerbyd fydd yn ei wagio.

Gall dod o hyd i blymiwr dibynadwy ymddangos yn her. Cysylltwch â'r Institute of Plumbing and Heating Engineering am gyngor ar sut i wneud hyn (gweler Adnoddau).

I osod tanc carthion 2,800 litr (defnydd ysgafn), gallwch ddisgwyl talu rhwng £500-£700. Ymhlith costau eraill mae:

- Costau adeiladu system trwytholchi
- Concrit 'parod' ar gyfer leinin y siambr
- Gwneud twll ar gyfer y siambr (JCB fyddai orau)
- Plymio
- Y toiled a gosodiadau
- Ciwbicl
- Cost hurio plymiwr pan fo angen
- Cysylltu â chyflenwad dŵr. Gellir cysylltu tanciau carthion â chyflenwad "dŵr crai" presennol ("nid dŵr yfed" yw hwn sy'n dod trwy beipen o'r prif gyflenwad, a ddefnyddir gan ddeiliaid y rhandiroedd i roi dŵr i blanhigion, a gan ddefnyddwyr domestig i fflysio toiledau). Bydd angen i bob safle ganiatáu ar gyfer: cost cysylltu, defnydd ychwanegol o ddŵr (ar fesurydd neu drethi). Hefyd bydd angen i safleoedd heb gyflenwad dŵr ystyried gosod a chysylltu â phrif gyflenwad dŵr (cysylltwch â'r cwmni dŵr lleol o ran gofynion statudol).

Trwy ddewis tanc carthion gyda chyfarwyddiadau llawn megis 'Titan', dylai fod unrhyw un gyda sgiliau ymarferol/Plymio cyfartalog allu gosod y tanc a'r toiled. Bydd prisiau'n amrywio'n dibynnu ar fanyleb y safle, fodd bynnag bydd cost y tanc carthion a'i osod eich hun tua £3,000-£4,000.

Cyn cychwyn ar y gwaith, mae'n bwysig ystyried faint o hylif ffo fydd yn cael ei gynhyrchu gan y toiled, a dewis maint y tanc yn ddibynnol ar anghenion eich safle.

## Toiledau Dros dro

Os oes angen toiled ar fyr rybudd, e.e. ar gyfer grŵp ysgol neu ddiwrnod agored, yr opsiwn gorau yw trefnu toiled dros dro. Dylid caniatáu £100 -150 i hurio uned un toiled am ddiwrnod, gan gynnwys costau ei gludo i a'i gasglu o'r safle. Mae rhestr o gwmnïau sy'n eu cyflenwi ar y rhyngrwyd neu yn y llyfr ffôn. Pris uned un toiled dros dro i'w brynu yw £500-600 (neu tua £1200 ar gyfer un sydd â mynediad i gadair olwyn) a gellir disgwyl iddyn nhw bara am ryw 10 mlynedd.

Hefyd mae angen gwagio toiledau dros dro'n rheolaidd, fydd hefyd yn golygu costau.

## Ciwbicl y toiled

Ar ôl penderfynu pa fath o system i'w osod ar gyfer eich toiled, dylid ystyried yn ofalus lleoliad y toiled, a pha fath o giwbicl i'w ddefnyddio. Ydy'r lleoliad y gyfleus i ddefnyddwyr? Ydy'r ciwbicl a'r toiled yn addas o ran mynediad i ddefnyddwyr anabl? Ydy deiliaid y rhandiroedd a chymdogion eraill gerllaw yn hapus i gael y toiled yn agos atynt Ydy'r ciwbicl yn anamlwg, ac yn wrthsafol o safbwynt fandaliaid?

Y dewis amlwg sylfaenol ar gyfer toiled ar randiroedd yw sied wedi'i adfer, neu gallwch adeiladu eich ciwbicl eich hun. Hwyrach y gallwch gael gafael ar flwch llong segur neu Bortacaban gan y Cyngor.

Y lleoliad delfrydol fyddai ardal prysgoed sy'n anaddas i randiroedd. Ni ddylid gosod "toiledau coed" yn ymyl draeniau, oherwydd bydd gwreiddiau helyg yn treiddio ac yn blocio'r draen.

Wrth ddewis deunydd ar gyfer y llawr, cofiwch y bydd gan ddefnyddwyr esgidiau mwdlyd a gwlyb yn aml iawn: byddai linoleum neu deils plastig yn llithrig ac yn hyll yn gyflym iawn. Byddai llawr concrit, pren neu hyd yn oed pridd a gywasgwyd yn fwy addas.

Os ydych yn cynnal cyfarfodydd gyda'r hwyr ar eich safle, gofalwch osod golau o ryw fath yn eich toiled. Mae gosod prif gyflenwad trydan yn ddrud, ond mae paneli solar yn ddewis amgen rhad, a gellir eu cyflenwi fel pecyn sy'n cynnwys panel, batri a'r gosodiadau. Mae'r dyluniad yn wrthsafol o safbwynt fandaliaid, a gellir ei ddefnyddio i redeg ffan gwyntyllu yn ogystal â golau. Dylid annog deiliaid y rhandiroedd i ddefnyddio eu torsh eu hunain, neu fel arall, byddai lamp storm yn rhoi golau sylfaenol.

## Rheoliadau ac Iechyd a diogelwch

Beth bynnag fydd eich dewis o ran toiled, dylid gwirio gyda'r cwmni dŵr lleol gyntaf, nad ydych yn torri unrhyw ddeddfau lleol mewn perthynas â'r system a ddewiswyd.

Bydd angen caniatâd awdurdod y rhandiroedd (fel arfer adran rhandiroedd eich cyngor neu'r tirfeddiannwr ar gyfer safleoedd preifat). Mae'n debyg y bydd angen caniatâd cynllunio arnoch ar gyfer toiled: bydd y gost yn amrywio'n dibynnu ar y math o strwythur sydd gennych mewn golwg a'r seiliau sydd eu hangen. Hwyrach y bydd eich awdurdod lleol yn ystyried nad oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer strwythur sy'n cael ei adeiladu ar safle'r rhandiroedd gan awdurdod y rhandiroedd, ond bod angen caniatâd ar gyfer strwythur sy'n cael ei adeiladu gan grŵp neu denant.

Hwyrach hefyd y bydd angen cymeradwyaeth swyddogion rheoli adeiladu'r cyngor a swyddogion iechyd yr amgylchedd. Os bydd eich toiled yn cynhyrchu carthffrwd, bydd angen cysylltu ag Asiantaeth yr Amgylchedd oherwydd bydd angen 'Trwydded Gollwng' (sydd hefyd yn golygu talu ffi).

Gwiriwch agweddau ar ddyluniad ac iechyd a diogelwch gydag adran gwasanaethau amgylcheddol eich cyngor hefyd. Yn olaf, cofiwch wirio fod polisi yswiriant awdurdod eich rhandiroedd neu eich polisi yswiriant eich hun (os taw safle sy'n rheoli ei hun ydych) yn cynnwys darparu toiled, a gofynnwch am gadarnhad ysgrifenedig o hyn.

Os oes angen tystiolaeth ar gyfer eich ceisiadau o fuddion toiled compost, gallwch dynnu sylw at eu fforddiadwyedd, dyluniad ac effaith sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd, a sut y bydd yn denu deiliaid newydd i'r safle.

## Atal fandaliaeth

Gofalwch fod drws y ciwbicl ar gau trwy'r amser i atal ei gamddefnyddio, a dylid rhoi allwedd i bob defnyddiwr. Mae clo wagen yn dda iawn, oherwydd mae ganddynt dwll sgwâr, ac mae angen allwedd benodol. Byddai drws â gorchudd dur yn ddiogel. Gellir gosod y clo yn ffrâm y drws i'w wneud yn gryfach. Os oes uned toiled, fel yn achos pob system tanc carthion a rhai systemau compost, dylid amgáu'r uned o dan neu ar du fewn y ciwbicl mewn rhyw ffordd, er mwyn osgoi fandaliaeth. Ni fydd toiled compost sy'n cael ei adeiladu gennych chi, yn sefyll allan fel rhywbeth "newydd" ac yn darged hawdd , a bydd yn fwy tebygol o weddu i adeiladau a siediau eraill ar y safle ac yn haws ei amnewid.

Os defnyddir pren i adeiladu'r caban, trwy ei baentio gyda phaent sy'n arafu tân gellir helpu lleihau'r risg o fandaliaeth. Hwyrach y byddwch am wneud yn glir taw toiled yw'r adeilad, nid yn unig i helpu eich defnyddwyr ond hefyd i atal fandaliaid rhag torri mewn a chwilio am offer i'w ddwyn! Gallwch dyfu rhosod dringo neu fwyar duon dros y ciwbicl i osgoi unrhyw ymdrechion i'w droi drosodd neu ymyrryd ag ef.

## Cyfleusterau golchi dwylo

Bydd Adran Gwasanaethau Amgylcheddol y Cyngor yn pennu bod yn rhaid darparu cyfleusterau golchi dwylo gydag unrhyw doiled. Byddan nhw'n hapus gyda chynhwysydd sydd â thap ynghlwm, neu hwyrach y byddan nhw'n dweud bod yn rhaid cael dŵr rhedegog o brif gyflenwad. Hwyrach y byddwch am ddarparu tywel, sebon a brws ewinedd.

Os oes cysylltiad â phrif gyflenwad dŵr ar y rhandir, ni fydd yn anodd ei gysylltu i ddarparu cyfleusterau golchi dwylo. Gall y sinc draenio'n syth allan i sỳmp (darn o dir i'w amsugno) neu gynhwysydd arall

i ddyfrio planhigion. Cofiwch ddefnyddio sebon bioddiraddadwy.

## Cynnal a Chadw

Mae rhai safleoedd yn defnyddio system honorariwm, lle rhoddir ychydig o arian i unigolyn i wneud y gwaith cynnal a chadw; ac mae eraill yn defnyddio rota.

Gofalwch fod deiliaid rhandiroedd yn gwybod gyda phwy ddylen nhw gysylltu yn achos nam neu os bydd dŵr yn gollwng. Bydd angen cronfa ar gyfer gwaith atgyweirio, i wagio'r tanc (ar gyfer rhai toiledau) a chyflenwad o ddeunyddiau glanhau ac ati.  Un ffordd o greu'r gronfa hon yw cyflwyno cynllun tanysgrifio ar gyfer defnyddwyr.

## Cyllido toiled

Gallwch gadw'r costau o osod toiled mor isel â phosib trwy gynnwys deiliaid rhandiroedd yn y gwaith adeiladu: os maen nhw'n awyddus i gael toiled, dylen nhw fod yn barod i helpu ei wireddu. Bydd hyn hefyd yn galluogi pobl i ddysgu sgiliau defnyddiol o ran gwaith atgyweirio a chynnal a chadw yn y dyfodol.

Mae'n debyg y byddwch yn gallu cael gafael ar doiledau a basn ymolchi ail law gan bobl sy'n gosod ystafelloedd ymolchi newydd. Hwyrach y bydd coed wedi ei adfer ar gael gan gwmnïau coed lleol, safleoedd diwydiannol, sgipiau ac ati. Fodd bynnag, os ydych wedi cael grant ar gyfer eich toiled, hwyrach y bydd meini prawf y grant yn nodi na allwch ddefnyddio rhai deunyddiau ail law.

I fod yn gymwys i dderbyn grant, bydd angen profi fod y toiled yn denu defnyddwyr newydd i'r rhandiroedd, yn hytrach na bod o fudd yn unig i aelodau presennol. Mae toiled compost yn arbed dŵr, a gall cyfrannu at dargedau "cynaliadwyedd ac ailgylchu", felly hwyrach y bydd yn werth gwneud cais am grantiau ailgylchu a chynaliadwyedd y cyngor.

Os ydy'r safle gerllaw caeau chwarae, parciau neu amwynderau cyhoeddus eraill, gallwch ofyn a fyddai'r awdurdod sy'n eu rheoli (gwasanaethau hamdden y cyngor mwy na thebyg) yn hoffi rhannu cost a defnydd o'r toiledau.

## Mynediad i'r Anabl

Mae gwella mynediad i'r anabl yn golygu mwy na darparu toiled sy'n hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn; mae angen gwella mynediad at weddill y safle ac ymgysylltu â darpar ddefnyddwyr.

Gall fod yn ddrud i adeiladu toiled i'r anabl: mae angen ramp gyda graddiant 1:15 neu 1:20m, ynghyd â rheiliau cydio amrywiol ac ati. Oherwydd bod sylfaen toiled compost oddi ar y ddaear, bydd angen ramp hirach os oes angen mynediad i'r anabl, oni bai y gellir defnyddio llethr naturiol y safle (gweler uchod, ar y dde). Fel arall, gellir ystyried gosod rhan o siambr y toiled o dan y ddaear.

Am fwy o wybodaeth ar ofynion uned toiled i'r anabl, cysylltwch â'r Centre for Accessible Environments (gweler Adnoddau).

*Isod: Noder y ramp hir sydd ei angen ar gyfer llwyfan y toiled yma*

## Astudiaethau achos: toiledau compost

### Rhandiroedd Caeredin

Mae Cyngor Dinas Caeredin wedi gosod toiledau compost Excel NE ar naw o safleoedd rhandiroedd.

Toiled Coed Gordon Road, Bryste

Mae'r safle'n cael ymweliadau rheolaidd gan ddefnyddwyr y rhandiroedd sy'n dod i weld y toiled compost. Mae'r dyluniad yn debyg i un Caerfaddon, ond mae'r weiar ieir o'i gwmpas yn llawn toriadau mwyar duon. "Defnyddiwyd y mwyar duon, oherwydd dyna oedd ar gael, ac roedden nhw'n ddelfrydol mewn gwirionedd," meddai Fred Miller.

Saer coed oedd yn gyfrifol am redeg cwrs hyfforddi a adeiladodd ffrâm y llwyfan a'r siambr compost, yn hytrach na'i gyfrif fel diwrnod gwaith, felly roedd cyfranogwyr yn dysgu sgiliau gwaith coed, yn ogystal ag adeiladu toiled compost.

Defnyddiwyd paledi pren a choed o'r ystâd ddiwydiannol gyfagos ac adeiladwyd y grisiau o risiau wedi'u hadfer. Costiodd y toiled llai na £50.



Rhandiroedd Roundshaw, Bwrdeistref Sutton, Llundain


Adeiladwyd y toiled gan adeiladwr oedd wedi ymddeol ac un o ddeiliaid y rhandiroedd, gyda chymorth troseddwyr ifainc y Gwasanaeth Prawf. Hen gaban masnachu a gyfrannwyd gan adran y parciau yw ciwbicl y toiled. Cost y toiled oedd £500 ar gyfer deunyddiau, a £320 ar gyfer y caniatâd cynllunio angenrheidiol.

### Toiled Coed Caerfaddon

Lleolir y toiled i ffwrdd o'r rhandiroedd, mewn ardal o brysgoed, gerllaw gwrych coniffer 30 troedfedd. Mae'r gwrych yn ddelfrydol i amsugno'r garthffrwd: mae ei wreiddiau'n 'sychedig' iawn ac mae'n ffynnu mewn llecyn cysgodol, yn wahanol i helyg.

Roedd gwasanaethau amgylcheddol y cyngor yn hapus gyda'r dyluniad a'r lleoliad. Ni chodwyd unrhyw wrthwynebiad.

Mae'r toiled wedi cael cryn argraff ar drawstoriad o ddefnyddwyr y safle. "Mae pawb yn hapus iawn gyda'r toiled - nid yr aroglau, oherwydd does dim aroglau - ond y cysyniad," meddai Tim Baines, "yr unig broblem yw bod gwiwerod yn bwyta'r papur tŷ bach!"



Roedd dyluniad syml y toiled yn golygu fod deiliaid y rhandiroedd wedi llwyddo i'w adeiladu eu hunain, gan ddefnyddio llawer o ddeunyddiau a ailgylchwyd, gan gynnwys coed ar gyfer siambr y toiled, y caban a'r llwyfan. Y gost oedd £100 a thalwyd amdano gan ddeiliaid y rhandiroedd.

### Safle Rhandiroerdd Atwood Drive, Bryste

Toiled compost, tebyg ei ddyluniad i rai Gordon Road a Chaerfaddon. Mae'r llwyfan ar byst ffensio yn y ddaear. Mae'r grŵp wedi adeiladu baeau seilo o drawstiau rheilffordd; ar ôl gwagio'r compost o'r siambr, caiff ei gymysgu â gwellt/gwair yn y baeau seilo i greu'r compost terfynol, i'w ddefnyddio wedyn yn y blanhigfa. Mae gwely trwytholchi 4troedfedd x 2troedfedd ynghlwm.

### Cymdeithas Rhandiroedd Blondin, Bwrdeistref Ealing, Llundain

Dyluniwyd ac adeiladwyd toiled compost Rhandiroedd Blondin gan Natural Solutions. Coed a ddefnyddiwyd yn bennaf i adeiladu'r adeilad 3m2 gyda blociau ar gyfer y biniau compostio, a tho tun rhychog. Mae'n cynnwys system hidlo'r wrin a dau fin compostio. Dim ond un bin sy'n cael ei ddefnyddio ar y pryd, gyda'r llall yn pydru neu'n sbâr. Mae'r toiled ar y safle sydd â 100 rhandir ers Gorffennaf 2002. Mae troethlestr ar wahân yn rhan o'r toiled ynghyd â basn ymolchi bach sy'n defnyddio dŵr glaw o'r to. Mae'r dŵr a'r wrin yn cael eu rhyddhau i ddraen tir bach gerllaw.

Cyllidwyd y toiled ar y cyd trwy grant gan fenter amgylcheddol leol, 'Green Corridor', a chymorth ychwanegol gan Fwrdeistref Ealing Llundain.

Deiliaid rhandiroedd wnaeth y gwaith o adeiladu'r sylfeini, a gwaith blocio'r biniau compostio, a nhw hefyd fu'n helpu Andy Warren, Natural Solutions gyda'r gwaith o adeiladu'r prif adeilad.

Cyfanswm cost yr adeilad oedd £4,400. Roedd £2,000 i dalu am ddeunyddiau adeiladu, gyda chostau llafur ychwanegol o £2,000. Roedd y gweddill ar gyfer gosodiadau'r toiled, dodrefn ac ati. Ychwanegwyd y ramp 10m ar gyfer cadair olwyn yn ddiweddarach, am gost ychwanegol o £1,700 ar gyfer deunyddiau a llafur. Cymdeithas Trigolion Lleol Blondin a roddodd yr arian i greu'r ramp.

## Astudiaethau achos: tanciau carthion

### Cymdeithas Rhandiroedd Narborough a Littlethorpe, Caerlŷr

Yn 2001 prynodd y gymdeithas tanc toiled carthion Titan gan Travis Perkins, gyda grant Loteri. Maen nhw'n hapus iawn gyda'u toiled.

Trefnwyd i ffermwr gyda JCB wneud y twll, gosodwyd gwely concrit yng ngwaelod y twll, ac wedyn gosodwyd y tanc carthion. Llenwyd y tanc â dŵr i'w atal rhag codi wrth lenwi'r twll gyda mwy o goncrit, cerrig clai a graean, ac wedyn pilen bridd, pridd ac agorfa bridd. Ychydig o lathenni o'r toiled mae siambr archwilio, i wirio fod y garthffrwd yn glir (neu bydd yn llygru'r dŵr daear). Doedd dim angen unrhyw waith plymio ar y tanc carthion; roedd y system yn cynnwys yr holl gysylltiadau angenrheidiol, felly peth syml iawn oedd cysylltu peipen y toiled â'r tanc. Adeiladwyd y system trwytholchi gan y gymdeithas; roedd yn cynnwys gwely graean gyda gorchudd poliŵrethan glas.

"Gwnaethpwyd y gwaith gan yr aelodau yn ystod un penwythnos gwaith. Roedd angen cymorth proffesiynol i wneud y twll a gosod y concrit ar gyfer y tanc Titan, ond fel arall, yr aelodau gwnaeth y gwaith arall i gyd – a phob parch iddyn nhw am eu gwaith caled. Roedd rhai yno am ychydig o oriau, hanner diwrnod, diwrnod llawn neu'r penwythnos gyda digonedd o ddiodydd cynnes a

barbeciw i orffen bob nos," meddai cadeirydd y gymdeithas, Trevor Matthews.

### Ffederasiwn Rhandiroedd Bexley, Llundain

Mae safle sy'n cael ei reoli ar sail ddatganoledig yn Bexley wedi gosod toiled gyda thanc carthion, gan droi caban bach symudol yn giwbicl. Defnyddir uned Klargester ar y safle, a chost gosod yr uned oedd rhyw £3,000.

Bydd defnyddwyr yn cyfrannu trwy danysgrifiadau i dalu am wagio'r toiled.

## Adnoddau

### Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol (SF&G)

**Ffôn:** 0117 9231800
**Ebost:** admin@farmgarden.org.uk
**wefan:** www.farmgarden.org.uk

Elusen gofrestredig sy'n cefnogi, yn cynrychioli ac yn hyrwyddo ffermydd, gerddi cymunedol, ffermydd gofal, rhandiroedd a mannau gwyrdd eraill sy'n cael eu rheoli gan y gymuned er mwyn i gymunedau lleol dyfu.

### Y Gymdeithas Randiroedd (NAS)

**Ffôn:** 01536 266576
**Ebost:** natsoc@nsalg.org.uk
**wefan:** www.nsalg.org.uk

Corff cenedlaethol sy'n cynrychioli rhandiroedd yn y DU. Mae aelodau'n cynnwys cymdeithasau a ffederasiynau rhandiroedd, ysgolion, cynghorau, landlordiaid ac unigolion.

### Y Ganolfan Dechnoleg Amgen (CAT)

**Ffôn:** (01654) 705 950
**Ebost:** info@cat.org.uk
**wefan:** www.cat.org.uk

Gwasanaeth ymgynghorol a chyrsiau ar doiledau compost, dulliau trin carthffosiaeth cynaliadwy ac ynni adnewyddadwy. Mae'r ganolfan ymwelwyr yn cynnwys nifer o esiamplau o doiledau compost ac ynni adnewyddadwy.

**Cyhoeddiadau:** 'Compost Toilets: A Practical DIY Guide' Price £11.95. https://store.cat.org.uk/products/compost-toilets?variant=8817993318447

**Taflen Ffeithiau:** https://www.cat.org.uk/info-resources/free-information-service/water-and-sanitation/composting-toilets/

**Cyrsiau:** 'A Beginner's Guide to the Compost Toilet: Understanding the biology behind humanure'. Ffi: £70

**Gweminarau:** www.cat.org.uk/past-webinars/compost-toilets-an-introduction/

### Chartered Institute of Plumbing & Heating

**Ffôn:** 01708 472791
**Ebost:** info@ciphe.org.uk
**wefan:** www.ciphe.org.uk

Cyngor ar gael hyd i blymiwr

### Green Building Alliance

**wefan:** www.go-gba.org/resources/green-building-methods/composting-toilets/

### Eco-Loos

**Ffôn:** 01269 871774
**Ebost:** eco-loos@hotmail.co.uk
**wefan:** www. eco-loos.com

Toiledau dim dŵr fforddiadwy, cyfeillgar i ddefnyddwyr sy'n cael eu hadeiladu ar gyfer archebion.

### Energy Development Co-operative Ltd

**Ffôn:** 01502 589407
**Ebost:** info@solar-wind.co.uk

Cyngor ar baneli solar.

### Kingspan Klargester Environmental Ltd

**Ffôn.:**(01296) 633000
**wefan:** www.kingspanenviro.com/wastewater-management

Systemau tanciau carthion a thanciau dal.

### Biologic Design

**Ffôn:** (01886) 884 721

**Ebost:** jay@biologicdesign.co.uk
**wefan:** www.biologicdesign.co.uk

Gwybodaeth ar doiledau coed.

### Centre for Accessible Environments

**Ffôn:** 0207 7822 8232
**Ebost:** info@cae.org.uk
**wefan:** www.cae.org.uk

Dyluniad a rheolaeth cynhwysol, gyda'r nod o sicrhau mynediad at amgylchfydoedd iddyn nhw gael eu defnyddio a'u mwynhau gan bawb - gan gynnwys pobl anabl a phobl hŷn.

Ymhlith ei gyhoeddiadau mae: 'Managing Accessible Toilets': http://cae.org.uk/our-services/free-publications/

### Solar Energy Alliance

**Ffôn:** (01502) 515 532
**Ebost:** info@solarenergyalliance.com
**wefan:** www.solarenergyalliance.com

Paneli Solar

### Expertise Limited

**Ffôn:** (01629) 826 482
**Ebost:** enquiries@expertise-limited.co.uk
**wefan:** www.expertise-limited.co.uk

Cwmni ymgynghorol ym maes prosesau amgylcheddol a chemegol sy'n arbenigo mewn trin dŵr a charthffrwd a thechnoleg amgylcheddol arall, i leihau defnydd o ddŵr a lleihau gwastraff.

### Cress Water

**Ffôn: (**01884) 839 000
**Ebost:** info@cresswater.co.uk
**wefan:** www.cresswater.co.uk

Yn arbenigo mewn dylunio a gosod corslwyni, pyllau a gwlypdiroedd trwy gyfuniadau amrywiol i drin carthffrwd.

### Natural Solutions

Yn dylunio ac yn adeiladu toiledau compost gyda dwy siambr, ac yn cyflenwi systemau hidlo wrin ac elfennau ymarferol. Maent yn darparu cynlluniau a dyluniadau, cynlluniau ar gyfer swyddogion rheoli adeiladu ac asiantaeth yr amgylchedd ar gyfer toiledau compost.

**Ffôn:** (01686) 412 653
**Ebost:** info@natsol.co.uk
**wefan:** www.natsol.co.uk

## Llyfrau

### Liquid Gold: The Lore and Logic of Using Urine to Grow Plants

Awdur: Carol Steinfeld
ISBN-10: 1903998484
ISBN-13: 978-1903998489
Cyhoeddwyr : Green Books; 2il rifyn diwygiedig (1 Ion 2004)

### Compost Toilets: A Practical DIY Guide

Awdur: Dave Darby
ISBN-10: 0956675115
ISBN-13: 978-0956675118
Cyhoeddwyr: Low-impact Living Initiative (LILI); Rhifyn â Darluniau (31 Mai 2012)

### Essential Composting Toilets: A Guide to Options, Design, Installation, and Use

Awduron: Gord Baird & Ann Baird
ISBN-10: 0865718725
ISBN-13: 978-0865718722
Cyhoeddwyr: New Society Publishers; Rhifyn â Darluniau (27 Tach 2018)

Cynhyrchwyd ar gyfer Llywodraeth Cymru gan Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol, Ionawr 2021
Mae'r daflen ffeithiau hon yn cynnwys deunydd a gyhoeddwyd gyntaf gan y Fenter Adfywiohandiroedd (ARI) 2010

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Social Farms & Gardens
Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol

**Ffon:** 02920 225 942 /**Ebost:** wales@farmgarden.org.uk
**Website:** www.farmgarden.org.uk